Roberts yn bwriadu ceisio sicrhau'r copi hwnnw o Athrawiaeth y Drindod ar gyfer llyfrgell Coleg Bangor neu'r Llyfrgell Genedlaethol ond, hyd y gwn i, nid ydyw yn y naill na'r llall. Tybed beth a ddigwyddodd iddo?

* * * * *

O'R DYSTIOLAETH sydd ar gael, rwy'n credu mai tua 1802 y dechreuodd Ann gyfansoddi emynau. Dywed ei chyfaill John Hughes, Pontrobert: 'Bwriadodd Ann unwaith ysgrifenu dydd-lyfr, i gadw coffadwriaeth o'r ymweliadau a'r profiadau a fyddai yn gael; ond yn lle cyflawni y bwriad hwnw, dechreuodd gyfansoddi pennillion a hymnau, a phryd bynnag y byddai rhywbeth neillduol ar ei meddwl, deuai allan yn bennill o hymn.'

Ei phrofiad ysbrydol dwys yn ffrydio allan yn benillion yw emynau Ann Griffiths felly, ac o ganlyniad y mae ei hemynau yn llawer mwy personol nag eiddo'r un arall o'n hemynwyr mawr.

## YN EISIAU

*James Nicholas: Waldo Williams. Gwasg Prifysgol Cymru ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru, 1975. Cyfres Writers of Wales.*

*J. T. Jenkins, Tyddyn, Llangeler, Llandysul, Dyfed. SA44 5EY. (0559)370307.*

*Evan Davies: Cofiant a Phregethau Y Parch William Roberts, Llanrwst. Argraffwyd gan E. W. Evans, Dolgellau, 1896.*

*Mrs M. H. Roberts, Gelli, 46 Heol Tegid, Y Bala, Gwynedd. LL23 7EL (0678)520402.*

*Colin Hughes: Mametz: Lloyd George's "Welsh Army" at the Battle of the Somme. Orion Press, 1979.*

*D. A. Pretty, 3 The Dell, Tonteg, Pontypridd, Morgannwg Ganol. CF38 1TG.*

*Cyfieithiad newydd o lyfrau'r Testament Newydd gan Adran Ddiwinyddol Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru. Gasg Prifysgol Cymru, 1921-45. Set gyflawn neu lyfrau unigol.*

*Gwynedd Jones, Tŷ Bedw, 1 Birch Hill, Tongwynlais, Caerdydd. CF4 7LL (0222) 810600.*

*Unrhyw eitemau sy'n trafod hanes Sir Faesyfed ardal Rhaeadr Gwy yn arbennig.*

*Robert Lewis, Erw Las, Nant y Gader, Dolgellau, Gwynedd. (0341) 422234.*

Mae'n wir fod y lleill – Pantycelyn, Morgan Rhys, ac yn y blaen – yn canu o brofiad byw, ond yr oeddynt ar yr un pryd yn cyfansoddi eu hemynau gyda defnydd cynulleidfaol mewn golwg. Nid felly Ann. Nid oedd unrhyw fwriad ganddi i gyhoeddi ei gwaith. I'r gwrthwyneb yn wir.

Yn ôl merch Ruth Evans, morwyn Dolwar, dywedodd ei mam wrth Ann ryw dro: 'Gwell i chi ysgrifennu yr hymns yna, a chithau'n gwaelu yn eich iechyd. Mi fydde' yn resyn mawr eu colli nhw.' Ateb Ann oedd, 'Na, dydw i ddim yn eu gweld nhw yn deilwng. Does arna' i ddim eisio i neb eu cael nhw ar fy ôl. Rwy' i yn eu cyfansoddi nhw er cysur i mi fy hun.'

Ond fe ysgrifennodd Ann rai ohonynt. Mae sôn y byddai, wedi iddi gyfansoddi penillion, yn eu hysgrifennu ar ddarnau o bapur a'u cuddio dan glustog hen gadair wellt yng nghegin Dolwar.

Mae'n amlwg hefyd o'r unig lythyr sydd wedi'i gadw yn ei llaw hi ei hun, ei bod yn cynnwys ambell bennill mewn llythyrau at gyfeillion. Ond fe ddiogelwyd y cwbl o'i gwaith sydd gennym, nid yn ei hysgrifen ei hun (ac eithrio un pennill), ond trwy gof a llafur eraill.

Mae'n amlwg ei bod yn adrodd peth o'i gwaith wrth deulu a chyfeillion, ac mae sôn fod rhai penillion wedi mynd ar led yn ystod ei hoes trwy iddynt cael eu dysgu gan bregethwyr Methodist a ymwelai â Dolwar i gynnal oedfaon yno. Ond yr offeryn pennaf i ddiogelu'r emynau, wrth gwrs, oedd Ruth y forwyn.

Roedd hi ac Ann yn agos iawn, ac adroddai Ann ei phenillion wrth Ruth, er mwyn iddi hi eu gosod ar donau addas. Cofiodd Ruth hwy yn fanwl, a dysgu ar ei chof hefyd y penillion y byddai'n dod o hyd iddynt o dan glustog yr hen gadair wellt.

Wedi marw Ann, fe'u hadroddodd wrth Thomas Charles, a gofynnodd ef i wr Ruth, John Hughes, Pontrobert, eu hysgrifennu i lawr, fel y gallai eu cyhoeddi. Mae cop)iau llawysgrif John Hughes o'r emynau yn ddiogel bellach yn y Llyfrgell Genedlaethol, a chyhoeddwyd trawsysgrifiadau o'r fersiynau llawysgrif hyn sawl tro yn ystod y ganrif hon.

* * * * *

OND YR oedd copïau llawysgrif eraill o rai o emynau Ann Griffiths ar gael ar un adeg. Cyhoeddwyd gwaith Ann Griffiths am y tro cyntaf yn ail argraffiad casgliad emynau Robert Jones, Rhos-lan, Grawn-Sypiau Canaan (1805-06), ac yn llawnach yn y casgliad bychan a gyhoeddodd Thomas Charles yn 1806, Casgliad o Hymnau (eto dan olygyddiaeth Robert Jones, Rhos-lan, mae'n debyg.

Mae gwahaniaethau rhwng y fersiynau cyhoeddedig cyntaf hyn a'r fersiynau yn llawysgrifau John Hughes; ac er bod llawer o'r rhain yn ddiau yn codi o waith golygyddol Robert Jones a Thomas Charles, mae'n bosibl fod rhai amrywiadau yn codi o'r ffaith eu bod yn tynnu ar ffynonellau eraill yn ogystal â llawysgrifau John Hughes.

Er enghraifft, dywedir fod John Jones, hyn., Llanfyllin (sef nai Ann), wedi rhoi rhai o emynau ei fodryb ar bapur ar gais Thomas Charles tua'r un adeg â John Hughes, pan oedd Charles wrthi yn eu crynhoi ar gyfer eu cyhoeddi.

Ond mae sôn am ddau gopi llawysgrif arall o waith Ann yn ychwanegol at rai John Jones a John Hughes. Roedd gan frawd Ann, Edward Thomas, gopi llawysgrif o'i hemynau, ond dywedodd ei wyr ef, y Parch. John R. Thomas, Arberth, wrth Morris Davies, Bangor, 'ddarfu i ryw bregethwr ei fenthycio, yr hwn ni fu mor garedig a'i ddychwelyd yn ol'.

Bu Edward Thomas fyw yng nghyffiniau Merthyr o 1818 hyd ei farw yn 1852, ond nid oes modd dweud o'r dystiolaeth ai cyn iddo symud o ardal Pontrobert neu wedyn y benthyciwyd y llawysgrif. Er iddo ef ei hun barhau yn aelod gyda'r Methodistiaid Calfinaidd wedi iddo symud i'r de, bu rhai o'i deulu yn aelodau amlwg gyda'r Annibynwyr, ac felly ni ellir bod yn sicr mai beio pregethwr Methodist y dylid am ddiflaniad y llawysgrif!

* * * * *

BU GAN chwaer hynaf Ann – Jane Jones, Llanfyllin – gopi llawysgrif o'i hemynau hefyd. Dyma hanes y copi hwnnw, fel y'i ceir gan Morris Davies, Bangor, yn ei gofiant i Ann:

Yn fuan ar ol i Ann Thomas ddechrau cyfansoddi hymnau, yr oedd ei thad (John Thomas) yn digwydd bod yn Llanfyllin, yn nhy ei ferch hynaf, Mrs Jones; ac mewn rhyw ymddiddan am helynt crefydd yn yr ardal, dywedodd yr hen wr: – 'A wyddost ti beth, Siân? y mae Nansi acw yn gwneyd pennillion o hymnau – y rhai melusaf, yr wyf yn meddwl, a glywaist ti erioed.' Hwn oedd y tro cyntaf i'w chwaer glywed son am danynt; ac wrth weled ei thad mor llawen o honynt, gofynodd iddo a wnai efe eu hysgrifenu iddi hi mewn llyfr, yr hyn a addawodd efe yn rhwydd ei wneyd. Plygodd hithau rai lleni o bapur gwyn, a rhoddes hwynt i'w cydrwymo gyda llyfr hymnau Jones o Ramoth; ac yn hwnw, ychydig amser cyn ei farw (yn Chwefror 1804), ysgrifenodd John Thomas gryn nifer o'r hymnau, mewn llawysgrifen deg a hawdd ei darllen.

Cyhoeddodd J.R. Jones, Ramoth, Llyfr Emynau at Wasanaeth yr Eglwysi yn 1801, ond y tebyg yw mai ei Casgliad o Salmau a Hymnau yw'r llyfr emynau y cyfeirir ato yn y dyfyniad uchod.

Argraffwyd casgliad 1802, fel un 1801, yng Nghaer gan W.C. Jones. Er mai Mai 1802 yw'r dyddiad ar ddiwedd y rhagymadrodd, ymddengys ei bod yn fis Medi, o leiaf, ar y llyfr yn dod o'r argraffwyr (gw. David Davies, Bywgraffiad J.R. Jones, o Ramoth, 1911, tt.108, 223-5), a cheir rhai cop)iau â'r dyddiad 1803 ar yr wyneb-ddalen.

Bu cyfaill i J.R. Jones, Evan Evans (1773-1827), gweinidog gyda'r Bedyddwyr yn y Cefn-mawr wedi hynny, yn pregethu yn ardal Llanfyllin o tua Chwefror hyd ddiwedd Mai 1802. Dyna adeg dechreuadau achos y Bedyddwyr yn Llanfyllin, a bu Evan Evans yn ymweld â'r cylch yn gyson am gyfnod hir i fugeilio'r achos ifanc.

Awgrymir y gall mai trwyddo ef y daeth llyfr emynau Jones Ramoth i feddiant chwaer Ann Griffiths (gw. David Williams, Cofiant J.R. Jones, Ramoth, 1913, tt.636-8); neu fe allai fod wedi cyrraedd ei chartref trwy berthynas iddi, Ann Davies, a fedyddiwyd gan Evan Evans adeg y Sulgwyn 1803 (gw. J. Spinther James, Hanes y Bedyddwyr yng Nghymru, cyf.iv, 1907, t.221; R.O. Evans, Y Tri Hyn, 1931, t.3).

Dichon yn wir, fel yr awgryma David Williams, i'w thad fynd â'r gyfrol yn ôl i Ddolwar er mwyn cymeryd ei hamdden i gop)io emynau Ann i'r tudalennau gwyn yn y cefn; ac nid afresymol yw credu i Ann hithau fod yn bodio tudalennau casgliad Jones, Ramoth.

Gwelodd Morris Davies y copi arbennig yna o lyfr emynau Jones, Ramoth, 'gynt', ond erbyn cyhoeddi ei gofiant i Ann yn 1865 yr oedd, ysywaeth, wedi mynd ar goll. Cofiodd ychydig fanylion am gynnwys y tudalennau llawysgrif sydd yn tueddu i gadarnhau dilysrwydd fersiynau llawysgrifau John Hughes yn hytrach na'r fersiynau cyhoeddedig cynnar.

Dyna sy'n wir hefyd am yr unig bennill sydd gennym yn llaw Ann ei hun, sydd yn debyg iawn i'r ffurf arno yn llawysgrifau John Hughes ac yn bur wahanol i fersiwn cyhoeddedig Thomas Charles a Robert Jones, Rhos-lan. Yn wir, y mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu fod y ffurf sydd arnynt yn llawysgrifau John Hughes yn bur agos at ffurf wreiddiol emynau Ann Griffiths, ac yn sicr mor agos fyth ag yr ydym yn debyg o allu mynd erbyn hyn.

Ond wedi dweud hynny, tipyn o ddarganfyddiad fyddai dod o hyd i unrhyw un o'r fersiynau llawysgrif eraill a fu ar gael. Aed pawb ati ar frys, felly, i chwilio yng nghefn ei gopi o gasgliad emynau J.R. Jones, Ramoth!